

# Codi Tâl am Wasanaethau Cymdeithasol Amhreswyl

## Pam y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi tâl am eu gwasanaethau?

Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol greu incwm er mwyn helpu i dalu am eu gwasanaethau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014 o hyn ymlaen) yn pennu'r rheolau codi tâl, ac oherwydd hynny, efallai bydd y Cyngor yn gofyn i chi gyfrannu at gost gwasanaethau gofal y Cyngor.

Mae'r daflen ffeithiau yma'n cynnwys manylion am y ffordd y caiff eich costau gwasanaethau gofal amhreswyl eu cyfrifo. Noder ei diben yw rhoi gwybodaeth yn unig a ddylech chi ddim dibynnu arni fel datganiad llawn o'r gyfraith.

Caiff y daflen ffeithiau yma ei newid eto yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 pan gaiff polisi gofal amhreswyl y Cyngor ei adolygu.

## Am ba wasanaethau y mae rhaid i mi dalu?

Efallai y bydd raid i chi gyfrannu at gost y gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaethau gofal cartref
- Gwasanaethau gofal oriau dydd
- Cymorth yn y cartref
- Taliadau uniongyrchol
- Cymorth i fyw'n annibynnol/Cymorth Allgymorth
- Teleofal (Haen 3)
- Gofal seibiant (hyd at 56 o ddiwrnodau)

Pan na fydd defnyddiwr y gwasanaeth yn cydymffurfio â threfniadau'r gwasanaeth y cytunwyd arnyn nhw, neu os na fydd yn rhoi gwybod i'r darparwr am newidiadau i'r amseroedd, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gynnwys ymweliadau coll oherwydd hynny pan fydd yn cyfrifo'r gost wythnosol i'r defnyddiwr. Byddai achosion o ganslo ymweliad ar fyr rybudd yn enghraifft o hynny.

### **Fydd dim cost y gwasanaethau canlynol ar hyn o bryd:**

- Cludiant i wasanaethau oriau dydd
- Cynlluniau cyflogaeth a hyfforddiant mewn gwasanaethau oriau dydd
- Gwasanaethau ataliol a chymorth
- Cyfarpar cymunedol
- Aseidiadau o anghenion, gwaith cynllunio gofal ac adolygiadau
- Gwybodaeth a chyngor
- Gwasanaethau eiriolaeth a chyfryngu (mediation) annibynnol a phroffesiynol

### **Caiff rhai pobl eu heithrio o'r costau, beth bynnag fo'u hincwm:**

- Dioddefwyr o Glefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob
- Defnyddwyr y gwasanaeth sy'n cael gwasanaethau ôl-ofal o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Cynhalwyr sy'n oedolion
- Teuluoedd sy'n defnyddio cyfleusterau er mwyn iddyn nhw gael cymorth i gyflawni cyfrifoldebau rhieni plant iau nag 18 oed

### **Fydd dim cost am wasanaethau iechyd.**

Os ydych chi'n archebu prydau o fwyd o'r Cyngor a/neu os ydych chi'n cael cyfarpar Teleofal (Haen 1 a 2), gofynnir i chi dalu cost sefydlog am y rhain ar wahân.

## **Sut rydych chi'n penderfynu p'un a oes rhaid i mi gyfrannu at gost y gwasanaeth?**

Os ydych chi'n defnyddio gwasanaeth rydyn ni'n codi tâl amdano, bydd raid i'r Cyngor ofyn i chi am eich incwm wythnosol a'ch cynilon.

Yn rhan o feini prawf cymhwysedd y Cyngor i ddefnyddio gwasanaethau cymdeithasol, byddwn ni'n rhoi ffurflen asesiad ariannol/gydsyniad i rannu gwybodaeth a thafleini ffeithiau am gostau gofal i chi. **Rhaid i chi gwblhau'r ffurflen asesiad ariannol a'i hanfon yn ôl i'r Cyngor o fewn 15 diwrnod o'i chael.**

Fel arall, mae modd i chi wneud apwyntiad er mwyn cael cymorth i gwblhau'r ffurflen gan swyddog ymweld, neu gan eich cynrychiolydd ariannol sydd ag awdurdod ariannol (Atwrneiaeth Arhosol neu Ddirprwy Arian ac Eiddo'r Llys Gwarchod). Ar ôl i chi gysylltu â'r Garfan Asesu Ariannol yn gyntaf, bydden ni'n disgwyl i chi fod ar gael o fewn 15 niwrnod gwaith. Croeso i chi gysylltu â'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu drwy ysgrifennu i'r Uned Taliadau, Tŷ Oldway, Stryd Porth, Porth, CF39 9ST er mwyn gwneud cais am ymweliad i'r diben yma.

Mae modd i chi wneud cais am estyniad ar yr amserlenni yma, ond rhaid i'r Cyngor gyuno i hynny. Yn rhan o'ch asesiad ariannol, cewch chi gynnig gwiriad o'ch budd-daliadau, cyngor a chymorth ymarferol i wneud cais am fudd-daliadau efallai fod modd i chi eu hawlio.

**Os na fydd y Cyngor yn cael ffurflen sydd wedi'i chwblhau o fewn yr amserlenni uchod, caiff tâl ei godi arnoch chi am y gwasanaeth a gewch chi hyd at y gost uchaf y cytunnir arni fesul wythnos, ar ôl tynnu'r cymhorthdal.**

## **Faint y bydd raid i mi gyfrannu at gost y gwasanaeth?**

Caiff ei nodi mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru y bydd gennych chi o leiaf 45% yn fwy na'r lefel sylfaenol o Gymorth Incwm (neu o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth), neu 45% yn fwy na'r lefel sylfaenol o Gredyd Pensiwn, ar ôl ystyried eich cyfraniad at eich gwasanaethau gofal. Caiff hynny'n ei alw'n "**Swm Incwm Isaf**" (**SILI**). Fydd dim rhaid i chi dalu am eich gwasanaethau gofal os yw eich incwm wythnosol yn is na'r SILI.

Er mwyn cyfrifo'r swm y dylech chi ei gyfrannu at gost unrhyw wasanaethau, byddwn ni'n ystyried cyfanswm eich incwm a byddwn ni'n tynnu'r SILI, unrhyw wariant am lety a 5% o unrhyw lwfans gweini/byw i'r anabl a gewch chi ar ben hynny.

Eich cyfraniad am eich holl wasanaethau fydd y swm lleiaf o blith y canlynol:

- Swm eich incwm y mae modd ei godi arnoch chi; neu
- Cost eich gwasanaethau ar ôl tynnu'r cymhorthdal; neu
- Y gost wythnosol uchaf y cytunnir arni.

Ym mhob achos, caiff canlyniad yr asesiad o'ch cyfraniad at eich ffioedd gofal ei gadarnhau'n ysgrifenedig a chaiff datganiad ategol ei gynnwys a fydd yn nodi'r manylion am y ffordd y cyfrifon ni'ch asesiad. Bydd yr ohebiaeth yma hefyd yn cynnwys y manylion canlynol:

- Y dyddiad dechrau talu
- Sut i ofyn am adolygiad
- Amserlen anfonebu
- Dulliau o dalu
- Eich rhwymedigaethau i'r Cyngor o ran newidiadau i amgylchiadau ariannol

Nodwch fod taliadau'n berthnasol ar gyfer yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Sul.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymhorthdal am ein gwasanaethau. Dyma'r cyfraddau y mae modd eu codi ar gyfer 2022/23, ar ôl tynnu'r cymhorthdal:

Categori'r gwasanaeth	Cyfraddau
Gofal cartref	£17.00 yr awr
Cymorth i fyw ac i fyw'n annibynnol/Cymorth Allgymorth	£17.00 yr awr
Gwasanaethau gofal oriau dydd	£17.00 fesul ymweliad
Teleofal (Haen 3)	£5.88 yr wythnos
Taliadau Uniongyrchol (gofal yn y cartref)	£10.00 yr awr

Dyma'r costau isaf ac uchaf ar gyfer 2022/23:

Categori'r gwasanaeth	Cyfraddau
Cost wythnosol isaf	£2.50 yr wythnos
Cost wythnosol uchaf	£100.00 yr wythnos

## Beth y bydd raid i Wasanaethau Cymdeithasol ei wybod?

- **Eich incwm** – efallai fod hwn yn cynnwys pensiwn ymddeol y wladwriaeth, pensiwn preifat a'r rhan fwyaf o fudd-daliadau, ond fyddwn ni ddim yn cynnwys rhai mathau, er enghraifft:
  - Enillion
  - Lwfans Byw i'r Anabl (yr elfen symudedd)
  - Budd-dal Tai a budd-dal treth y cyngor

- **Eich gwariant** – mae'r rhain yn cynnwys pethau fel eich rhent (ar ôl budd-dal tai), eich morgais (ar ôl tynnu unrhyw gymhorthdal incwm/gymorth credyd pensiwn) a threth y cyngor (ar ôl budd-dal treth y cyngor).

Bydd y Cyngor yn anwybyddu 5% o'ch lwfans gweini/byw i'r anabl yn awtomatig er mwyn cydnabod unrhyw gostau ychwanegol i chi oherwydd anabledd.

Bydd y Cyngor yn parhau i anwybyddu unrhyw gyfraniadau rydych chi'n eu gwneud i Grant Byw'n Annibynnol Cymru.

- **Eich cyfalaf** – mae hyn yn cyfeirio at werth unrhyw gynilon neu fuddsoddiadau sydd gennych chi. Efallai na fyddwn ni'n ystyried rhan o'r rhain.

Os oes gennych chi gynilon o lai na £24,000, cân nhw eu diystyru. Os oes gennych chi gynilon o fwy na £24,000, bydd raid i chi dalu'r swm isaf o blith y canlynol, naill ai'r gost wythnosol uchaf neu eich cost asessedig wythnosol am eich gwasanaethau.

## **Beth os nad ydw i am roi manylion am fy nghyllid i chi?**

Does dim rhaid i chi. Serch hynny, os nad ydych chi, bydd y Cyngor yn codi'r gost am y gwasanaethau a gewch chi arnoch chi, hyd at y gost wythnosol uchaf y cytunnir arni, ar ôl tynnu'r cymhorthdal.

## **Costau am Ofal Seibiant (hyd at 8 wythnos)**

Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, o 6 Ebrill 2016 caiff gofal seibiant (hyd at 8 wythnos, sy'n rhan o'ch cynllun gofal a chymorth) ei ystyried yn wasanaeth amhreswyl ac felly bydd cost amdano, sef hyd at £100 yr wythnos ar hyn o bryd.

Fe'ch hysbysir o'ch cyfraniad tuag at y gofal seibiant a dderbyniwch pan gyrhaeddwch hwn am y tro cyntaf. Gwneir ailasesiadau bob blwyddyn ac yn dilyn arhosiad seibiant cychwynnol yn y flwyddyn ariannol newydd, byddwch hefyd yn cael gwybod am unrhyw newidiadau yn eich tâl. Bydd datganiadau codi tâl y Cyngor a anfonir atoch yn dangos yn glir y:

- Y cyfraniad pan fyddwch chi'n defnyddio gwasanaethau gofal rheolaidd e.e. Gofal Cartref/Oriau Dydd
- Y cyfraniad wythnosol diwygiedig (os yw'n berthnasol) pan fyddwch chi'n defnyddio gwasanaethau seibiant

Os byddwch yn aros am gyfnod sy'n pontio 2 wythnos, efallai bydd raid i chi dalu ar gyfer y 2 wythnos, er enghraifft ar gyfer arhosiad o ddydd Gwener i ddydd Mawrth

## **Penodi rhywun i weithredu ar eich rhan**

O Ebrill 2016, os nad oes gan ddefnyddiwr y gwasanaeth y gallu i reoli ei faterion ariannol, bydd raid iddo nodi hynny yn rhan o feini prawf cymhwysedd y Cyngor. Os byddwn ni'n penderfynu bod defnyddiwr y gwasanaeth yn gallu rheoli ei faterion ariannol ei hun yn sgil asesiad, caiff anfoneb o'r costau iddo ei hanfon yn uniongyrchol i'w fan preswyllo. Bydd y Cyngor yn anfon copi'au o ohebiaeth (nid anfonebau swyddogol) at drydydd parti cyn belled â bod defnyddiwr y gwasanaeth wedi rhoi'r awdurdod ysgrifenedig perthnasol i ni.

Os yw rhywun yn gweithredu ar ran defnyddiwr y gwasanaeth, mae'n bwysig ei fod yn gwneud hynny'n ffurfiol, er enghraifft Penodai dros eich budd-daliadau gan y wladwriaeth, Atwrneiaeth arhosol, neu Ddirprwy o dan y Llys Gwarchod. Dim ond yn yr achosion yma y bydd y Cyngor yn cysylltu â chynrychiolydd defnyddiwr y gwasanaeth i gael gwybodaeth am ei gyllid ac i'w anfonebu'n uniongyrchol am y gost asesedig (ar ôl iddo dderbyn cyfrifoldeb am y costau).

## Sut rydw i'n gwneud taliadau?

Bob 4 wythnos bydd y Cyngor yn anfon anfoneb atoch chi; bydd yr anfoneb yma'n cynnwys costau sy'n ddyledus. Mae amrywiaeth o dulliau o dalu anfonebau. Mae manylion am y dulliau wedi'u cynnwys ar gefn y bil a gaiff ei anfon bob mis, ac mae'n cynnwys yr opsiynau talu canlynol:

- Debyd uniongyrchol
- Siec
- Mewn unrhyw gangen banc Barclays
- Mewn unrhyw swyddfa'r post (â cherdyn adnabod y Cyngor)
- Â cherdyn debyd/credyd
- Wrth ddesgiau arian y Cyngor

## Beth os nad ydw i'n cytuno â'r cyfraniad y mae rhaid i mi ei dalu?

Caiff defnyddiwr y gwasanaeth wneud cais am adolygiad o'i asesiad ariannol os yw'n teimlo y cafodd penderfyniad amhriodol ei wneud, naill ai o ran lefel y gost, neu o ran y seiliau dros y penderfyniad i godi tâl. Mae gennych chi hawl i roi gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn eich asesiad ariannol, er enghraifft, am wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Bydd y Cyngor yn sefydlu Panel Adolygu a gaiff ei arwain gan Bennaeth y Gwasanaeth er mwyn ystyried y ceisiadau yma.

Mae modd cael ffurflen adolygu a thaflen ffeithiau drwy ffonio'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380 neu (01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu drwy anfon llythyr i'r Uned Taliadau, Tŷ Oldway, Stryd Porth, Porth, CF39 9ST.

Os nad ydych chi'n hapus gyda phenderfyniad y Panel Adolygu, bydd modd i chi wneud cwyn ffurfiol am hynny i'r Cyngor yn unol â gweithdrefn cwynion Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor.

## Beth os bydd fy amgylchiadau ariannol yn newid?

Os bydd eich amgylchiadau ariannol yn newid, rhaid i chi roi gwybod i'r Garfan Asesu Ariannol cyn gynted â phosibl oherwydd efallai bydd hynny'n effeithio ar ei asesiad o'r gost. Dyma rai o'r newidiadau y dylid rhoi gwybod amdany'n nhw:

- Budd-daliad newydd
- Newidiadau i'ch cyfalaf
- Newidiadau i'ch incwm neu i'ch gwariant a ganiateir

Bydd hynny'n sicrhau y caiff costau eu codi arnoch chi'n gywir ac yn deg.

## **Beth fydd yn digwydd os nad ydw i'n talu?**

Pan fyddwch chi'n cronni dyled, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn darganfod y rhesymau dros hynny. Dim ond mewn achosion o beidio â thalu'n fwriadol y caiff camau eu hystyried i adfer y ddyled, yn unol â gofynion Deddf 2014.

## **Ble y mae modd i mi gael rhagor o wybodaeth na'r hyn sydd yn y pamffled yma?**

Mae gennym ni linell gymorth er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor. Croeso i chi ffonio'r Garfan Asesu Ariannol ar **(01443) 680380** neu **(01443) 680383** rhwng 9am a 5pm (dydd Llun–dydd Gwener) neu anfonwch lythyr i'r Uned Taliadau, Tŷ Oldway, Stryd Porth, Porth, CF39 9ST.

## **Ble y mae modd i mi gael cyngor ariannol annibynnol?**

Efallai ei bod yn gymhleth cynllunio ar gyfer eich anghenion gofal a chymorth yn y dyfodol, ac rydyn ni'n gwybod hynny. Efallai y bydd o gymorth i chi i gael cyngor proffesiynol ar adnabod y datrysiad mwyaf addas a chost-effeithiol.

Mae nifer mawr o sefydliadau a fydd yn rhoi cyngor cyffredinol am ddim ar ariannu gofal a chymorth. Mae'r rhain yn fan cychwyn da i gael gwybodaeth ac i weld y mathau o opsiynau sydd ar gael.

### **Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol**

Rhif Ffôn 0800 138 7777

<https://www.moneyadvice.service.org.uk/cy>

### **Age Cymru**

Rhif Ffôn – Llinell Gyngor 08000 223 444

<http://www.ageuk.org.uk/cymru/>

### **Cyngor ar Bopeth**

Rhif Ffôn – Llinell Gymorth 034554 04 05 06

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>

***Mae modd rhoi'r wybodaeth yma mewn fformatau eraill  
(Saesneg, llythrennau bras, Braille ac ieithoedd eraill)***

Er mwyn gwneud sylw am y daflen ffeithiau yma neu unrhyw wybodaeth arall o wasanaethau cymdeithasol,

cysylltwch â [gwasanaethaucymdeithasol@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:gwasanaethaucymdeithasol@rhondda-cynon-taf.gov.uk)